# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Cybi**

**Ysgol Cybi**
**Ffordd Garreglwyd**
**Caergybi**
**LL65 1NS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/01/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Cybi wedi'i gofrestru i ofalu am hyd at 19 o blant, gan gynnig gofal i blant rhwng 2½ a 4 oed. Mae'r gwasanaeth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor, rhwng 09.00am a 3.00pm. Mae Cylch Meithrin Cybi wedi penodi Janet Ellis fel yr unigolyn cyfrifol a Dawn Williams yw'r person â chyfrifoldeb a benodwyd. Mae'r gwasanaeth yn ddwyieithog ac mae'n darparu 'Cynnig Rhagweithiol' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg; mae hefyd yn darparu addysg ar gyfer plant tair a phedair oed ac yn cael ei arolygu gan Estyn.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Datblygiad | Da |
| Yr Amgylchedd | Da |
| Arwain a Rheoli | Da |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn cael profiad o ryngweithio ystyrlon ac o ganlyniad maent yn hyderus ac wedi ymgartrefu. Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda; maent yn hybu iechyd a llesiant y plant. Mae'r staff yn cynllunio'n dda ac mae hyn yn helpu'r plant i wneud cynnydd cadarnhaol. Mae'r amgylchedd yn gyfforddus ac yn ddiogel, gydag adnoddau addas ar gael yn hawdd ac mewn cyflwr da. Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth gynhwysfawr o'u cyfrifoldebau, ac maent yn gosod disgwyliadau clir ac yn rheoli'r gwasanaeth yn dda iawn. Mae diwylliant o ddatblygiad proffesiynol a chyfathrebu cadarnhaol â'r rhieni.

### 2. Gwelliannau

Yr arolygiad cyntaf yn dilyn cofrestru.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhellion mewn perthynas â hyrwyddo datblygiad y plant a'r ardal chwarae awyr agored.

## 1. Llesiant **Da**

**Crynodeb**

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo, ac maent yn gwneud cynnydd mewn amgylchedd gofalgar sydd wedi'i gynllunio'n dda. Maent yn meithrin cyfeillgarwch â'r rheini o'u cwmpas ac yn cael budd o brofiadau chwarae a dysgu cadarnhaol sy'n eu cefnogi'n llwyddiannus i fod yn blant hyderus ac annibynnol.

**Ein canfyddiadau**

Roedd y plant yn cael profiadau ystyrlon o ryngweithio, a oedd yn golygu eu bod yn hyderus i fynegi eu teimladau gan eu bod yn gwybod y byddai rhywun yn gwrando arnynt. Roeddent yn siarad â'r staff yn hawdd; er enghraifft, gwnaethant ofyn i'r staff eu helpu i wisgo'r dillad chwarae rôl, a oedd yn eu galluogi i ymestyn ac adeiladu ar eu profiadau chwarae mewn modd cadarnhaol. Ar ôl iddynt wisgo eu cotiau a'u menig, gwnaethant ddefnyddio'r peli eira ffug a dynwared gornest taflu peli eira. Roedd y staff yn gwrando ar y plant ac, o ganlyniad, roeddent yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel. Gwnaethant ddweud wrth y staff pa ardal chwarae roeddent am chwarae ynddi, a oedd yn golygu eu bod yn cael cyfleoedd i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Roedd y plant yn symud yn hyderus i'r gweithgaredd o'u dewis, roeddent yn dewis sut i dreulio eu hamser, ac yn ymgysylltu â'r hyn a oedd o ddiddordeb iddynt. Gwelsom rai o'r plant yn dewis chwarae â'u ffrindiau yn y gornel adeiladu. Cafodd rolau eu dirprwyo a gwnaethant greu strwythurau cymhleth ochr yn ochr â'i gilydd. Roedd y plant yn gallu manteisio i'r eithaf ar eu hamser yn y gwasanaeth.

Roedd y plant yn gyfarwydd â'r drefn ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni am eu bod yn cael gofal cyson ac yn gwybod beth oedd yn ddisgwyliedig ohonynt; roeddent yn gwybod pan oedd hi'n amser chwarae a phan oedd hi'n amser iddynt wrando. Er enghraifft, gwnaethant wrando ac ymateb yn briodol yn ystod amser cylch, a chyfarchodd pawb ei gilydd yn gynnes. Roedd y cydberthnasau roedd y plant yn eu ffurfio yn golygu eu bod yn mwynhau treulio amser gyda'i gilydd ac fe'u gwelsom yn sgwrsio am yr hyn roeddent yn ei wneud yn hawdd ac yn gwahodd ei gilydd i ymuno yn yr hyn a oedd yn digwydd, gan egluro sut y byddent yn gallu ymuno yn y gêm.

Roedd y plant yn dangos parch at eiddo, oherwydd bod yr adnoddau'n cael eu cadw'n briodol. Er enghraifft, pan gafodd y gân tacluso ei chanu, gwnaeth pawb roi'r teganau roeddent wedi bod yn eu defnyddio yn ôl yn eu lleoedd priodol. Roedd y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar eu cyflymder eu hunain, ac roedd ymdeimlad da o ganlyniad i hynny. Roedd y meysydd dysgu wedi'u cynllunio'n dda ac yn apelio at ddiddordebau'r plant. Gallent ddewis yr hyn roeddent am gymryd rhan ynddo a gwnaethant symud o un ardal i'r llall yn hawdd. Yn ystod amser cylch, roedd y plant yn dewis y caneuon, ac roedd pob un ohonynt yn gyfarwydd â'r symudiadau a oedd yn mynd gyda'r geiriau.

Roedd y plant yn gallu cyflawni tasgau priodol drostynt eu hunain. Pan wnaethant gyrraedd, gwnaethant roi eu heiddo ar y pegiau isel, ac wrth baratoi i fynd allan i chwarae, gwnaethant aros nes bod pawb yn barod i ymuno â nhw cyn casglu eu cotiau ar y ffordd

allan. Roedd y plant yn cwblhau tasgau drostynt eu hunain yn llwyddiannus, megis golchi eu dwylo cyn cael byrbryd a chasglu eu ffrwythau o'u bagiau.  Fodd bynnag, roedd diodydd yn cael eu harllwys ar gyfer y plant er ei bod yn amlwg bod ganddynt y gallu i gwblhau'r tasgau drostynt eu hunain.

## 2. Gofal a Datblygiad **Da**

### Crynodeb

Mae'r staff yn hybu diogelwch a llesiant y plant yn llwyddiannus. Caiff y rhyngweithio ei reoli'n gadarnhaol ac mae'r staff yn mynegi disgwyliadau o ran ymddygiad yn glir. Mae gan y staff wybodaeth am anghenion unigol y plant ac mae profiadau chwarae a dysgu yn cael eu cynllunio'n dda, gan ystyried diddordebau'r plant.

### Ein canfyddiadau

Roedd y staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw; roedd dwylo'n cael eu golchi cyn prydau bwyd ac roedd y byrddau'n cael eu sychu. Roedd y staff yn gallu cael gafael ar yr adnoddau angenrheidiol pan roeddent yn newid cewynnau i leihau'r risg o ledaenu heintiau, fel yr argymhellir gan ganllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer lleoliadau gofal plant rheoleiddiedig. Roedd y staff yn cefnogi'r plant i dreulio amser yn yr awyr iach ac roedd gweithgarwch corfforol yn cael ei hybu. Roedd dŵr a llefrith yn cael eu cynnig i'w hyfed yn unol â chanllawiau arferion gorau Llywodraeth Cymru. Roedd arferion glanhau cadarn yn cael eu dilyn; roedd y staff yn cofnodi pryd y cafodd eitemau eu glanhau, ac roeddent yn gwirio'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn addas.

Roedd gan y staff ddealltwriaeth o'u cyfrifoldebau o ran diogelu ac roeddent wedi cael yr hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf. Roedd cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cadw, ond nid oeddent bob amser yn cael eu llofnodi gan y rhieni pan oedd y plant yn mynd o'r Cylch i'r ysgol ar gyfer y prynhawn.

Roedd y staff yn fodelau rôl cadarnhaol bob amser, ac roedd eu rhyngweithio â'r plant yn ystyrlon bob tro. Roeddent yn rhoi eu hamser a'u holl sylw i'r plant, ac o ganlyniad i hynny roedd y plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod pobl yn gwrando arnynt, a oedd yn lleihau ymddygiad digroeso. Roedd disgwyliadau o ran ymddygiad yn glir; roedd y staff yn esbonio i'r plant mewn ffordd ddigynnwrf pan oedd eu hymddygiad yn mynd yn rhy afreolus, a rhoddwyd canllawiau clir er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau penodol. Roedd y staff yn rhoi cyfleoedd i'r plant siarad ac roedd hyn yn cefnogi'r plant i ddeall eu teimladau, a oedd yn eu helpu i ymlacio. Roedd y plant yn cael eu cefnogi i gymryd rhan lawn mewn gweithgaredd drwy reoli ymddygiad cadarnhaol ac roeddent yn cael eu gwahodd i rannu gweithgareddau gyda'i gilydd. Roedd hyn yn ennyn diddordeb y plant yn yr hyn a oedd yn digwydd o'u cwmpas.

Roedd y staff yn cynllunio'n llwyddiannus i roi cyfleoedd chwarae a dysgu cadarnhaol i'r plant, ac roedd hyn yn cynnig diben a strwythur i bob sesiwn. Roedd gweithgareddau'n cael eu teilwra i ddewisiadau a galluoedd unigol; er enghraifft, er mwyn cefnogi sgiliau adnabod llythrennau, roedd y plant iau yn cael eu hannog i ddefnyddio llythrennau magnetig. Roedd y staff yn rhoi blaenoriaeth i olrhain cynnydd y plant ac adnabod anghenion unigol. Roeddent yn adolygu'r cynnydd a wnaed ac roedd cyfarfodydd cymorth rheolaidd yn cael eu cynnal gydag athro ymgynghorol yr Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau cynnydd parhaus. Roedd y staff yn gwneud yn siŵr bod y plant wrth wraidd yr hyn roeddent

yn ei wneud, ac roeddent yn defnyddio profiadau a diddordebau'r plant fel man cychwyn ar gyfer eu taith dysgu.

## 3. Yr Amgylchedd **Da**

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Mae'r amgylchedd yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd i'r plant ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r adnoddau, y teganau a'r cyfarpar mewn cyflwr da.

### Ein canfyddiadau

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Wrth i ni gyrraedd, cawsom ein cyfarch gan y person â chyfrifoldeb am y gwasanaeth a gofynnwyd i ni am ein manylion adnabod. Cofnodwyd ein presenoldeb drwy lofnodi'r llyfr ymwelwyr. Roedd y drysau wedi'u cloi ac roedd yr ardal chwarae yn yr awyr agored yn gaeedig, sy'n golygu bod yr amgylchedd yn ddiogel. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr asesiadau risg yn cael eu diweddaru'n flynyddol ac roeddent yn cynnwys risgiau yn ystod gweithgareddau a theithiau allan. Roedd cyn lleied o beryglon â phosibl ac roedd y staff yn goruchwylio'r plant yn dda yn ystod y dydd. Pan oeddent yn yr awyr agored, roeddent yn sicrhau bod y plant yn chwarae'n ddiogel ac yn eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol llawn hwyl. Roedd y plant yn mwynhau reidio'r sgwteri a'r beiciau ac yn archwilio'r amgylchedd cyfan.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn gyfredol a bod y tystysgrifau priodol wedi'u harddangos yn y gwasanaeth. Roedd y safle yn groesawgar ac yn hygyrch i bawb. Roedd yr ardaloedd chwarae yn drefnus iawn ac yn apelio at ddiddordebau'r plant drwy gynnig gweithgareddau a oedd yn tanio eu dychymyg. Roedd y lle yn ddigon mawr i alluogi'r plant i symud yn rhydd, ac roedd y plant yn symud rhwng un ardal a'r llall. Roedd yr ardal awyr agored yn cael ei defnyddio'n aml ac yn cynnig cyfleoedd i'r plant fod yn weithredol, ond nid oedd yn adlewyrchu'r profiadau a oedd ar gael dan do ac nid oedd wedi cael ei datblygu'n llawn eto.

Mae'r arweinwyr wedi gweithio'n galed i sicrhau bod adnoddau o ansawdd da ar gael i'r plant, ac maent wedi llwyddo i wneud hyn, gan ddarparu ystod eang o adnoddau sy'n amrywiol ac yn cynnig cyfoeth o brofiadau chwarae a dysgu y mae'r plant yn cael budd ohonynt. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau mewn cyflwr da a bod cofnod yn cael ei gadw pan fyddant yn cael eu glanhau. Roedd amrywiaeth o ddodrefn addas ar gyfer oedran y plant ar gael a oedd yn rhoi cyfle i'r plant gwblhau tasgau drostynt eu hunain, megis casglu'r hyn roeddent am chwarae ag ef o ddroriau lefel isel, a oedd wedi'u labelu'r glir i ddangos yr hyn a oedd yn cael eu storio y tu mewn iddynt. Roedd yr ardaloedd chwarae wedi cael eu newid yn rheolaidd er mwyn cynyddu diddordeb y plant yn eu dysgu. Er enghraifft, gwelsom eu bod wedi mwynhau lapio parseli yng ngweithdy'r corrach, a'u bod bellach yn mwynhau chwarae â'r peli eira ffug yn yr un maes dysgu.

## 4. Arwain a Rheoli

**Da**

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth gydag ymroddiad ac ymrwymiad. Mae'r ddogfennaeth ofynnol yn eithriadol o drefnus. Caiff y staff eu cefnogi'n llawn i gyflawni eu rolau a chaiff diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus ei hyrwyddo. Mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni, yr ysgol a'r gymuned er mwyn sicrhau bod profiadau'r plant yn cael eu cyfoethogi.

### Ein canfyddiadau

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth bendant ar gyfer y gwasanaeth ac maent yn ei rhannu'n dda â'r staff. Mae'r unigolyn cyfrifol yn meddu ar flynyddoedd o brofiad ac yn rhoi cymorth dyddiol er mwyn galluogi'r staff i gyflawni eu rolau a rhoi o'u hamser i ofalu am y plant. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd a'u rhannu â'r staff, a rhoddir amser i'r staff eu darllen a'u deall. Pennir disgwyliadau uchel ac mae'r staff yn ymroddedig i fodloni'r disgwyliadau hyn.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn y gwasanaeth.  Roedd y sesiynau goruchwylio yn ystyrlon ac roedd cynlluniau wedi cael eu llunio i gynnal arfarniadau blynyddol. Mae'r arweinwyr yn mynd ati'n rheolaidd i geisio barn y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan wrando'n weithredol ar y wybodaeth a gesglir a'i defnyddio i gynllunio gwelliannau parhaus ar gyfer y dyfodol, a'u rhoi ar waith. Mae'r arweinwyr yn dilyn proses recriwtio gadarn ac amserol ac mae ganddynt systemau ar waith i sicrhau y caiff pob gwiriad addasrwydd ei gwblhau. Roedd y gwaith papur a welwyd yn ystod yr arolygiad yn eithriadol o drefnus. Dilynir proses sefydlu drylwyr, gan roi'r amser a'r cymorth i'r staff ddysgu ac ymgyfarwyddo â'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo dysgu pellach ac yn mynd ati i helpu'r staff i fynychu hyfforddiant pellach ac ennill cymwysterau ychwanegol a fydd yn eu helpu yn eu rôl. Ceir diwylliant cadarn o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r arweinwyr wedi meithrin cysylltiadau cadarn â'r gymuned a phartneriaid eraill. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos iawn gyda'r ysgol gyfagos. Mae'r staff yn siarad â'r athrawon yn rheolaidd ac mae'r pennaeth yn gwbl gefnogol ac yn cyfarfod yn rheolaidd â'r unigolyn cyfrifol. Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol er mwyn darparu gofal o safon uchel i'r plant. Caiff y rhieni eu croesawu i'r gwasanaeth bob amser, ac maent yn dod i weld gwaith y plant ac yn cael diweddariadau rheolaidd ynghylch y cynnydd a wnaed gan eu plant. Caiff y gwaith a gwblhawyd gan y plant ei gasglu a'i anfon adref mewn llyfr trysorau. Caiff digwyddiadau codi arian eu cynnal yn rheolaidd. Mae'r rhieni'n cefnogi'r rhain yn llwyr ac mae'r arian a godir yn cyfrannu at y gost o gynnal y gwasanaeth a phrynu adnoddau newydd. Rhennir diweddariadau rheolaidd am gyflawniadau'r plant ac mae'r rhieni'n gwerthfawrogi'r gofal a'r gwasanaeth y maent yn eu cael yn fawr.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dylai'r arweinwyr ystyried y canlynol:

- cynnig cyfleoedd ychwanegol i'r plant wneud pethau drostynt eu hunain yn ystod amser byrbryd;
- datblygu'r ardal chwarae awyr agored er mwyn rhoi cyfleoedd chwarae a dysgu ychwanegol i'r plant.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ddydd Iau 9 Ionawr, rhwng 9:20am a 3:40pm.

Gwnaethom y canlynol:

- edrych ar sampl o ddogfennau, polisïau, ffeiliau tri aelod o'r staff a chofnodion unigol dau blentyn;

- arsylwi ar ymarfer a chwblhau arsylwadau gan ddefnyddio adnodd Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI2) er mwyn cofnodi tystiolaeth o'r ffordd y mae'r plant yn ymgysylltu a'r gofal a ddarperir gan y staff;

- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir, y teganau a'r adnoddau;
- siarad â'r plant, y staff, yr unigolyn cyfrifol, y person â chyfrifoldeb ac un rhiant;
- rhoi adborth i'r unigolyn cyfrifol;

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Janet Ellis** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Dawn Williams**<br>**Janet Ellis** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **19** |
| **Ystod oedran y plant** | **2½ – 4 oed** |
| **Oriau agor** | **9:00am i 3:00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod y tymor (39 wythnos y flwyddyn).** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Arolygiad ar ôl cofrestru** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **09 Ionawr 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/03/2020